

# Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

Dr Gwynne Jones  
Prif Weithredwr – Chief Executive  
CYNGOR SIR YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn - Anglesey  
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500  
Ffacs / fax (01248) 750839

| <b>RHYBUDD O GYFARFOD</b>                                       | <b>NOTICE OF MEETING</b>  |
|---|---|
| <b>PANEL DETHOL Y PWYLLGOR<br/>SAFONAU</b>                      | <b>STANDARDS COMMITTEE<br/>SELECTION PANEL</b>                    |
| <b>DYDD IAU, 11 EBRILL 2019<br/>am 10.00 o'r gloch</b>          | <b>THURSDAY, 11 APRIL 2019<br/>at 10.00 am</b>                    |
| <b>YSTAFELL BWYLLGOR 1<br/>SWYDDFEYDD Y CYNGOR<br/>LLANGFNI</b> | <b>COMMITTEE ROOM 1<br/>COUNCIL OFFICES<br/>LLANGFNI</b>          |
| <b>Swyddog Pwyllgor</b>   | <b>Mrs Shirley Cooke<br/>(01248) 752514<br/>Committee Officer</b> |

## **Yn cynrychioli'r Cyngor Sir / Representing the County Council**

Y Cyngorydd/Councillor Robert LI Jones  
Y Cyngohrydd/Councillor Gwilym O Jones  
Y Cyngorydd/Councillor Margaret M Roberts

## **Yn cynrychioli'r Cyngorau Tref/Cymuned / Representing the Town/Community Councils**

Mr Gordon Warren

## **Aelodau Annibynnol / Independent Members**

Dr Teleri Mair Jones

## R H A G L E N

1 **ETHOL CADEIRYDD**

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

3 **RECRIWTIO PEDWAR AELOD ANNIBYNNOL NEWYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 1 - 8)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro sy'n gofyn i'r Panel benderfynu ar y meini prawf dewisol wrth recriwtio.

4 **CYMERADWYO'R HYSBYSEB A'R GWAITH PAPUR AR GYFER RECRIWTIO PEDWAR O AELODAU ANNIBYNNOL NEWYDD I'R PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 9 - 64)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro ar yr hysbyseb papur newydd drafft a'r Ffurflen Gais arfaethedig ar gyfer y broses recriwtio.

5 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 65 - 66)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

“Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei ddatgelu fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A y Ddeddf, ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”

6 **CWESTIYNAU POSIB AR GYFER CYFWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL AR Y PWYLLGOR SAFONAU** (Tudalennau 67 - 68)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro sy'n gofyn i'r Panel ystyried cwestiynau cyfweld addas.

| CYNGOR SIR YNYS MÔN  |  |
|----------------------|--|
| PWYLLGOR:            | Panel Dethol y Pwyllgor Safonau  |
| DYDDIAD:             | 11 Ebrill 2019   |
| TEITL YR ADRODDIAD:  | Recriwtio pedwar aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau  |
| PWRPAS YR ADRODDIAD: | Cytuno ar ofynion y fanyleb person a'r ffurflen gais   |
| AWDUR YR ADRODDIAD:  | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro   |
| SWYDDOG CYSWLLT:     | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)<br>Swyddog Monitro<br><a href="mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk">lbxcs@ynysmon.gov.uk</a><br>01248 752586 |

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Mae angen i Banel Dethol y Pwyllgor Safonau benderfynu ar y meini prawf ar gyfer y pedwar aelod annibynnol newydd sydd i'w penodi i Bwyllgor Safonau'r Cyngor Sir.
- 1.2 Yn dilyn y broses hysbysebu, bydd y Panel Dethol yn sgorio'r ceisiadau a geir yn erbyn y meini prawf ac yn dilyn hynny bydd yn cytweld yr ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer ac yn gwneud unrhyw argymhellion o ran penodiadau i'r Cyngor Sir. Bydd y penodiadau'n cael eu cadarnhau gan y Cyngor Sir.

## 2. GOFYNION DEDDFWRIAETHOL

- 2.1 Mae isafswm y gofynion statudol ar gyfer rôl aelod annibynnol y Pwyllgor Safonau wedi eu nodi yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.
- 2.2 Rhaid i UNRHYW ymgeisydd allu bodloni'r anghenion hyn i gael eu hystyried.

## 3. UNRHYW OFYNION YCHWANEGOL

- 3.1 Gellid hefyd gweithredu gofynion ychwanegol (y cyfeirir atynt fel meini prawf dewis lleol). Gallai'r rhain gynnwys sgiliau neu rinweddau a ystyrir yn fanteisiol er mwyn sicrhau bod yr ymgeiswyr gorau a mwyaf addas yn cael eu penodi.
- 3.2 Mae enghreifftiau o feini prawf dewis lleol wedi eu cynnwys yn **Atodiad 2** yr adroddiad.

## 4. MEINI PRAWF AR GYFER Y BROSES RECRIWTIO YN 2017

- 4.1 Mae **Atodiad 3** o'r adroddiad hwn yn nodi'r meini prawf a osodwyd ar gyfer y broses recriwtio yn 2017 er mwyn llenwi lle gwag ar y Pwyllgor Safonau.

4.2 Ychydig iawn o geisiadau a dderbyniwyd yn 2017. Gofynnir i'r Panel ystyried a oedd y gofynion yn rhy drwm ac yn bethau a oedd yn atal ymgeiswyr rhag cyflwyno cais.

## **5. MEWNBWN ALEODAU'R PWYLLGOR SAFONAU PRESENNOL AR Y MEINI PRAWF ANGENRHEIDIOL**

5.1 Gofynnwyd i aelodau presennol y Pwyllgor Safonau am eu mewnbwn mewn perthynas â dewis aelodau annibynnol ar gyfer y Pwyllgor Safonau o fis Rhagfyr 2019. Darparodd yn aelod adborth ac mae hwn wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4** yr adroddiad hwn.

## **6. ARGYMHELLIAD**

6.1 Y Panel i gytuno pa feini prawf dewis lleol y mae'n dymuno eu cynnwys (os o gwbl) yn ychwanegol at y gofynion deddfwriaethol ar gyfer recriwtio'r pedwar aelod annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau.

**Meini Prawf Deddfwriaethol: Lleiafswm y Gofynion**

- Ni all person fod yn aelod annibynnol os ydi o/hi, mewn perthynas â:
  - Cyngor Sir Ynys Môn
    - yn gynghorydd ar hyn o bryd neu'n gyn-gynghorydd
    - yn gyflogedig gan y Cyngor neu wedi bod yn y gorffennol e
    - yn ŵr neu wraig neu'n bartner i:
      - gynghorydd
      - gweithiwr
  - unrhyw gyngor sir arall, cyngor bwrdeistref sirol, awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub
    - yn gynghorydd ar hyn o bryd
    - yn gyflogedig ganddynt ar hyn o bryd
    - yn ŵr neu wraig neu'n bartner i:
      - gynghorydd
      - gweithiwr
    - os yw'r ymgeisydd wedi rhoi'r gorau iddi i fod yn gynghorydd neu'n gyflogedig ers yn hirach na 12 mis [gan ddechrau ar y dyddiad y peidiodd yr ymgeisydd â bod yn gynghorydd/yn gyflogedig], gall ymgeisio
  - unrhyw gyngor cymuned
    - cynghorydd presennol
    - rhywun sy'n gyflogedig ar hyn o bryd
    - yn ŵr neu wraig neu'n bartner i:
      - gynghorydd
      - gweithiwr
- Rhywun nad ydynt wedi eu gwahardd rhag dal swydd o dan adran 80 Deddf Llywodraeth Leol 1972:
  - Yn amodol ar orchymyn methdaliad sydd heb ei ryddhau;
  - Sydd ag euogfarn troseddol o fewn y 5 mlynedd diwethaf lle rhoddwyd dedfryd o garchar (wedi'i gohirio neu beidio) am gyfnod o ddim llai na 3 mis
- Ddim wedi ei wahardd/gwahardd rhag bod yn aelod o gyngor o dan Ran III Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983.

**Meini Prawf Dewis Lleol / Sgiliau y gellid eu hystyried yn fanteisiol:**

Mae Enghreifftiau yn cynnwys -

- Y gallu i ddangos y rhinweddau a'r sgiliau canlynol:
  - Sgiliau gwranddo
  - Y gallu i bwysu a mesur tystiolaeth
  - Meddwl annibynnol
  - Didueddrwydd
  - Y gallu i ffurfio barn wrthrychol ac i egluro'r safbwynt hwnnw drwy gyfeirio at y dystiolaeth
  - Sgiliau gwaith tîm
  - Parch tuag at eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiaeth
  - Disgresiwn
  - Unplygrwydd personol
  - Ddim yn cymryd rhan weithredol mewn gwleidyddiaeth leol na chenedlaethol
  
- Nid yw gwybodaeth fanwl am lywodraeth leol yn angenrheidiol ond fe allai fod o fantais petai gan ymgeiswyr ddiddordeb mewn materion yn ymwneud â bywyd cyhoeddus a gwasanaethau.
  
- Fe ddylai aelodau annibynnol fod:
  - Yn bobl sy'n cael eu parchu yn y gymuned
  - Yn gallu bodloni'r gofynion amser sy'n gysylltiedig â'r rôl
  - Yn gallu defnyddio iPad a chael mynediad at negeseuon e-bost
  - Yn gallu darparu dau dystlythyr

**Meini prawf ar gyfer proses recriwtio yn 2017****Cyffredinol:**

- dim cysylltiad â'r Cyngor Sir nac unrhyw gyngor tref / cymuned na gwleidyddiaeth leol;
- cymwys i gael ei g/chynnwys ar y gofrestr o etholwyr yn Ynys Môn;
- yn gallu arddangos lefel uchel o annibyniaeth ac unplygrwydd personol;
- peth profiad sy'n berthnasol i waith y Pwyllgor Safonau;
- yn chwarae rhan weithredol mewn perthynas â chyfrannu'n gadarnhaol i'w cymuned.

**Gwaharddiad Awtomatig:****Mae rheoliadau statudol yn eithrio yn awtomatig unrhyw ymgeisydd sydd:**

- yn gynghorydd neu wedi bod yn gynghorydd ar Gyngor Sir Ynys Môn
- yn gynghorydd ar unrhyw gyngor sir arall, cyngor bwrdeistref sirol, awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub
- yn gynghorydd ar unrhyw gyngor cymuned
- yn gweithio neu wedi bod yn gweithio i Gyngor Sir Ynys Môn
- yn gweithio i unrhyw gyngor sir arall, cyngor bwrdeistref sirol, awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub
- yn gweithio i unrhyw gyngor cymuned
- yn briod/bartner i gynghorydd neu weithiwr efo unrhyw gyngor sir arall, cyngor bwrdeistref sirol, awdurdod parc cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub
- yn briod/bartner i gynghorydd neu weithiwr i unrhyw gyngor cymuned
- wedi bod yn gynghorydd efo unrhyw gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol, awdurdod parc cenedlaethol, a/neu, awdurdod tân ac achub o fewn y 12 mis diwethaf. Os ydi aelodaeth yr ymgeisydd wedi dod i ben ers cyfnod o ddeuddeng mis [yn dechrau efo'r dyddiad y peidiodd yr ymgeisydd hwnnw â bod yn aelod o'r awdurdod perthnasol], yna gellir gwneud cais.
- wedi ei wahardd rhag dal swydd dan Adran 80 Deddf Llywodraeth Leol 1972
- ddim yn gymwys i gofrestru fel etholwr yn Ynys Môn
- yn aelod o Bwyllgor, Is-Bwyllgor, Cydbwyllgor neu Banel sy'n gysylltiedig â Chyngor Sir Ynys Môn

**Gwaharddiad Dewisol (fel y cafodd ei gynnwys yn Ffurflen Gais 2017)**

- Gofynnir i chi, os gwelwch yn dda, i roi manylion am unrhyw berson rydych mewn cysylltiad agos â hwy neu sy'n perthyn i chi (e.e. ffrind agos, priod/partner, mab/merch, rhiant, brawd/chwaer, neu berthynas agos arall) sydd ar hyn o bryd neu sydd wedi bod yn Gynghorydd ar, neu'n weithiwr i, Gyngor Sir Ynys Môn neu gyngor tref/cymuned ym Môn. **Os nad oes cysylltiad o'r fath dylech ddweud hyn.**
- Gofynnir i chi os gwelwch yn dda roi manylion am nifer a math y gweithgareddau busnes/masnachol fu rhyngoch chi a Chyngor Sir Ynys Môn yn ystod y 4 blynedd diwethaf. Cyflwynwch y wybodaeth pa un a oedd y trafodion busnes hynny wedi eu cynnal gennych chi fel unigolyn neu fel cyfarwyddwr cwmni. **Os na fu gennych chi unrhyw fusnes gyda'r Cyngor Sir yn ystod y 4 blynedd diwethaf dylech ddweud hynny.**

- Rhowch fanylion os ydych yn dibynnu ar berthynas fasnachol / fusnes gyda Chyngor Sir Ynys Môn am unrhyw ran o'ch incwm. **Os nad oes unrhyw ddibyniaeth o'r fath dylech ddweud hynny.**
- Gofynnir i chi os gwelwch yn dda roi manylion unrhyw gysylltiad arall sydd gennych gyda Chyngor Sir Ynys Môn, ei gynghorwyr neu weithwyr waeth ba mor ddibwys neu bell ydynt. (Dylech ddiystyru'r ffaith eich bod efallai'n derbyn unrhyw wasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu ar gyfer holl aelodau'r cyhoedd neu nifer fawr ohonynt). **Os nad oes gennych gysylltiad o'r fath, dylech ddweud hynny.**
- Rhaid i aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau fedru dangos niwtraliaeth wleidyddol. Efallai y bydd rhai gweithgareddau yn eich gwahardd.



## ATODIAD 4

Dwi'n credu mai'r cam cyntaf y dylid ei gymryd ydi cytuno pa gymwyseddau sydd eu hangen i'r rôl. Unwaith y bydd hyn wedi ei wneud, gellir cynllunio'r cwestiynau yn seiliedig ar y sgiliau hynny. Dyma enghraifft o sgiliau y gellir eu cynnwys yn fy marn i:

Cyfathrebu - gall hyn gynnwys holi cwestiynau teg a pherthnasol, gan wrando ar, a dadansoddi atebion cyn llunio a holi rhagor o gwestiynau lle bo hynny'n briodol  
Gweithio o fewn canllawiau, rheolau a deddfwriaethau sy'n berthnasol i'ch rôl  
Annog, cefnogi a helpu eraill i gydymffurfio a rheolau megis y cod ymddygiad  
Dadansoddi a gwerthuso gwybodaeth a thystiolaeth gymhleth  
Gwneud penderfyniadau yn gytbwys ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gan lunio a nodi eich rhesymeg yn eglur  
Dylanwadu ar eraill  
Y gallu i roi a derbyn adborth adeiladol a dysgu gan eraill  
Cynnig gwelliannau yn seiliedig ar eich dadansoddiad o wybodaeth  
Gweithio mewn dull cydweithredol gan drafod yn rhesymegol ac adeiladol a chyfrannu at benderfyniadau fel rhan o dîm (collective decisions)  
Derbyn ac ystyried cyngor a barn broffesiynol (e.e. gan swyddog neu gynghorydd cyfreithiol)  
Y gallu i fod yn ddigynnwrf a phroffesiynol mewn sefyllfaoedd heriol  
Helpu i ddatrys gwrthdaro rhwng unigolion neu bartïon  
Dyfarnu ar sancsiwn priodol a chymesur  
Cynnal cyfrinachedd  
Ymrwymiad at weddill Egwyddorion Nolan

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN         |  |
|-----------------------------|--|
| <b>PWYLLGOR:</b>            | Panel Dethol y Pwyllgor Safonau  |
| <b>DYDDIAD:</b>             | 11 Ebrill 2019   |
| <b>TEITL YR ADRODDIAD:</b>  | Cymeradwyo'r hysbyseb a'r gwaith papur ar gyfer recriwtio pedwar o Aelodau Annibynnol newydd i'r Pwyllgor Safonau                                    |
| <b>PWRPAS YR ADRODDIAD:</b> | Fel y disgrifir uchod  |
| <b>ADRODDIAD GAN:</b>       | Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro   |
| <b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>     | Lynn Ball<br>Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro <a href="mailto:lbxcs@ynysmon.gov.uk">lbxcs@ynysmon.gov.uk</a><br>01248 752586 |

## 1. CEFNDIR

- 1.1 Gofynnir i Banel Dethol y Pwyllgor Safonau gymeradwyo'r gwaith papur mewn perthynas â'r broses recriwtio ar gyfer y pedwar aelod annibynnol newydd a fydd yn cael eu penodi i'r Pwyllgor Safonau.
- 1.2 Bydd canlyniad y penderfyniad dan Eitem 3 ar y Rhaglen hon yn cael ei adlewyrchu yn fersiwn derfynol y gwaith papur drafft sydd ynghlwm.

## 2. HYSBYSEBU YN Y PAPURAU NEWYDD

- 2.1 Mae'n ofyniad cyfreithiol bod yr hysbyseb ar gyfer recriwtio unrhyw aelod annibynnol i'r Pwyllgor Safonau yn ymddangos yn o leiaf 2 o bapurau newydd sy'n cylchredeg yn ardal CSYM.
- 2.2 Yn 2017, hysbysebwyd swydd wag achlysurol ar wefan y Cyngor, Twitter a Facebook, y North Wales Chronicle a'r Bangor and Anglesey Mail.
- 2.3 Mae hysbyseb ddrafft ar gael yn **Atodiad 1** yr adroddiad hwn.
  - 2.3.1 Mae'n ofyniad cyfreithiol bod rhaid i'r hysbyseb
    - 2.3.1.1 Roi gwybod i etholwyr yr ardal bod CSYM eisiau penodi aelodau annibynnol i'w Bwyllgor Safonau;
    - 2.3.1.2 Cyhoeddi'r meini prawf ar gyfer y penodiad.
- 2.4 Gall yr hysbyseb:
  - 2.4.1 gynnwys manylion yn dweud bod y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn cael eu penodi o blith aelodau annibynnol y Pwyllgor; a

2.4.2 hysbysu etholwyr am y rhinweddau a'r profiad y bydd angen i aelodau annibynnol feddu arnynt.

2.6 Fel arfer, mae cost yr hysbyseb yn dibynnu ar nifer y llythrennau a ddefnyddir / y lle sydd wedi cael ei neilltuo i'r hysbyseb honno yn y papur newydd. Mae'n dilyn y bydd hysbyseb fyrrach yn costio llai nag hysbyseb sy'n hirach. Dylai'r Panel gymryd hyn i ystyriaeth pan yn meddwl am beth i'w gynnwys yn yr hysbyseb.

### 3. FFURFLEN GAIS

3.1 Bwriedir i bob darpar ymgeisydd (ar-lein neu drwy'r papur newydd) dderbyn llythyr (boed ar ffurf electronig neu ar bapur) gydag atodiadau er mwyn sicrhau bod yr holl ymgeiswyr yn cael eu trin yn gyson. Bydd y llythyr yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r swydd ynghyd â chopi o'r Ffurflen Gais.

3.2 Mae ymholiadau hefyd yn cael ei gwneud gyda'r Gwasanaeth TGCh er mwyn sefydlu a fyddai modd cael ffurflen gais ryngweithiol. Os yw hynny'n bosibl, gyda chefnogaeth TGCh, byddir yn ystyried hynny ymhellach. Fel arall, bydd y ffurflen bapur ar gael i ymgeiswyr dim ond iddynt ofyn amdani fel y manylir uchod.

3.3 Mae copi o'r llythyr drafft ar gyfer ymgeiswyr ynghlwm yn **Atodiad 2** yr adroddiad hwn.

3.4 Mae'r llythyr drafft yn cyfeirio at y gwahanol atodiadau ac mae'r rhain hefyd ar gael fel y cyfeirir atynt o fewn y llythyr ei hun:

3.4.1 **Atodiad 1 y Llythyr** – Gwybodaeth gefndirol ar gyfer Ymgeiswyr

3.4.2 **Atodiad 2 y Llythyr** – Y Côd Ymddygiad

3.4.3 **Atodiad 3 y Llythyr** – Rhestr Lwfansau

3.4.4 **Atodiad 4 y Llythyr** – Ffurflen Gais

3.4.4.1 **Atodiad A y Ffurflen Gais** – Anghymwyso ar gyfer y rôl

3.4.4.2 **Atodiad B y Ffurflen Gais** – Y niwtraliaeth / wleidyddol / annibyniaeth sydd ei hangen ar gyfer y rôl

3.4.4.3 **Atodiad C y Ffurflen Gais** – profiad a chyfraniad i'r gymuned a all fod yn berthnasol i'r rôl

3.5 Bydd angen i ymgeiswyr lenwi a chyflwyno eu Ffurflenni Cais erbyn y dyddiad cau a bennwyd.

### 4. Y BROSES UNWAITH Y BYDD Y CEISIADAU WEDI DOD I LAW

4.1 Unwaith y bydd y dyddiad cau wedi dod i ben, bydd y Panel Dethol yn cyfarfod i drafod yr holl geisiadau a dderbyniwyd yn erbyn y meini prawf penodi a'r fanyleb person ac yn llunio rhestr fer o enwau fel y gellir trefnu cyfweliadau.

4.2 Gwahoddir ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer i gyfweliad a rhoddir gwybod i'r ymgeiswyr aflwyddiannus. Gofynnir bryd hynny am dystlythyrau gan y ddau ganolwr sydd wedi cael eu henwi.

4.3 Bydd y Panel Dethol yn cyfweld ac yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn a fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol.

## 5. ARGYMHELLIAD

5.1 Y Panel i ystyried y gwaith papur drafft a chadarnhau yr hyn y mae'n dymuno ei ychwanegu at, neu ei dynnu cyn ei gyhoeddi.

5.2 Y Panel i roi'r awdurdod i'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i ddiwygio unrhyw waith papur i adlewyrchu unrhyw benderfyniad a wnaed ar Eitem 3 y Rhaglen hon, a allai gynnwys:

5.2.1 Rhinweddau'r aelodau annibynnol fel y cânt eu nodi yn yr hysbyseb ddrafft yn **Atodiad 1**

5.2.2 Rhan 3 y Ffurflen Gais mewn perthynas â "Gofynion Ychwanegol Dewisol", yn arbennig **Atodiad B y Ffurflen Gais**, sy'n ymwneud â niwtraliaeth / wleidyddol / annibyniaeth

5.2.3 Rhan 4 y Ffurflen Gais sy'n cynnwys cyfeiriad at **Atodiad C y Ffurflen Gais**, sy'n ymwneud â Phrofiad a all fod yn berthnasol i'r rôl neu Gyfraniadau Cymunedol a all fod yn berthnasol i'r rôl.

5.2.4 Cynnwys unrhyw rinweddau neu sgiliau pellach sydd, ym marn y Panel, yn berthnasol.

**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL****SWYDD WAG I AELOD O'R CYHOEDD  
YMUNO Â PHWYLLGOR SAFONAU'R  
CYNGOR**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn chwilio am bedwar aelod annibynnol o'r cyhoedd i ymuno â'r Pwyllgor Safonau.

Rhaid i'r aelodau annibynnol fod efo'r rhinweddau canlynol:

Mae mwy o wybodaeth a ffurflen gais ar gael drwy fynd i:

<http://www.ynysmon.gov.uk/swyddi/swyddi-gydar-cyngor/swyddi-gwag-cyffredinol?redirect=false>

<http://www.facebook.com/cyngormon>

<https://twitter.com/cyngormon>

Os hoffech sgwrs anffurfiol, neu gopi papur o'r ffurflen gais, cysylltwch â **Mrs Medwen Jones** ar 01248 752574 / [medwenjones@ynysmon.gov.uk](mailto:medwenjones@ynysmon.gov.uk)

**VACANCY FOR A MEMBER OF THE  
PUBLIC TO JOIN THE COUNCIL'S  
STANDARDS COMMITTEE**

The Isle of Anglesey County Council is looking for four independent members of the public to join its Standards Committee.

The independent member must have the following qualities:

Further information and an application form are available at:

<http://www.anglesey.gov.uk/jobs/jobs-with-the-council/general-vacancies/>

<http://www.facebook.com/IOACC>

<https://twitter.com/angleseycouncil>

If you would like an informal discussion, or a paper copy of the application form, then please contact **Mrs Medwen Jones** on 01248 752574 / [medwenjones@anglesey.gov.uk](mailto:medwenjones@anglesey.gov.uk)

**DRAFT**

**ATODIAD / ENCLOSURE 2**

**BUSNES Y CYNGOR / COUNCIL BUSINESS**

**LYNN BALL LL.B., (Hons.) Cyfreithiwr/Solicitor  
PENNAETH SWYDDOGAETH (BUSNES Y CYNGOR) /  
SWYDDOG MONITRO  
HEAD OF FUNCTION (COUNCIL BUSINESS) /  
MONITORING OFFICER**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN /  
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL  
Swyddfa'r Sir / Council Offices  
LLANGFNI  
Ynys Môn / Anglesey  
LL77 7TW**

**DX: 701771 – LLANGFNI**

**ffôn / tel: (01248) 752586  
ffacs / fax: (01248) 752132  
E-Bost – E-mail: LBXCS@anglesey.gov.uk**

**Ein Cyf – Our Ref. LB/MWJ/CC-019937-MWY  
Eich Cyf – Your Ref.**

Annwyl Ymgeisydd

**PWYLLGOR SAFONAU CYNGOR SIR  
YNYS MÔN – CAIS AM AELOD  
ANNIBYNNOL**

Diolch i chi am eich ymholiad ynghylch  
gweithio efo Cyngor Sir Ynys Môn.

Gweler ynghlwm os gwelwch yn dda y  
canlynol :-

- 1. GWYBODAETH GEFNDIROL AR  
GYFER YMGEISWYR (1)**
- 2. Y CÔD YMDDYGIAD** a fabwysiadwyd gan  
Cyngor Sir Ynys Môn sydd hefyd yn  
berthnasol i Aelodau'r Pwyllgor Safonau  
(2).
- 3. RHESTR O LWFANSAU** – bydd y Cyngor  
Sir yn ad-dalu costau i Aelodau  
Annibynnol y Pwyllgor Safonau yn unol â'i  
Restr Lwfansau. Mae'r rheiny sydd/a all  
fod yn berthnasol wedi eu hamlygu yn  
felyn (3).

Dear Applicant

**ISLE OF ANGLESEY COUNTY  
COUNCIL'S STANDARDS COMMITTEE –  
VACANCY FOR AN INDEPENDENT  
MEMBER**

Thank you for expressing an interest in  
working with the Isle of Anglesey County  
Council.

Please find attached the following:

- 1. BACKGROUND INFORMATION FOR  
APPLICANTS (1)**
- 2. THE CODE OF CONDUCT** adopted by  
the Isle of Anglesey County Council and  
also applicable to members of the  
Standards Committee (2)
- 3. SCHEDULE OF ALLOWANCES** – the  
County Council will reimburse  
independent members of the Standards  
Committee in accordance with its  
Schedule of Allowances. Those which  
are/may be relevant are highlighted in

yellow (3)

**4. FFURFLEN GAIS (4)** yn cynnwys y cyngor isod:

- pethau a all eich anghymwysu rhag ymgeisio am y rôl hon (A)
- 
- yr amhleidioldeb gwleidyddol / annibyniaeth sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl hon (B)
- profiad a chyfraniad cymunedol a all fod yn berthnasol i'r rôl (C)

**5. APPLICATION FORM (4)** including the following advices:

- disqualifications from this role (A)
- political neutrality/independence required for this role (B)
- experience and community contributions which may be relevant to the role (C)

**5. AMLEN GYDA'R POST WEDI'I DALU**

Ar ôl ei llenwi, anfonwch y ffurflen gais yn ôl os gwelwch yn dda yn yr amlen bwrpasol at Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni LL77 7TW erbyn dim hwyrach na 5pm ar **[DYDDIAD]**.

Bydd pob cais a dderbynnir erbyn y dyddiad cau yn cael ei gydnabod ond, yn anffodus, ni fydd modd ystyried ceisiadau hwyr.

Llawer o ddiolch.

Yr eiddoch yn gywir

**5. PREPAID ENVELOPE**

When completed, please return the application form in the prepaid envelope provided to the Head of Function (Council Business)/Monitoring Officer, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni, Anglesey LL77 7TW to be received by no later than 5pm on the **[DATE]**.

All applications received by the deadline will be acknowledged but, regrettably, late applications will not be considered.

Many thanks.

Yours sincerely

Lynn Ball

Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro  
Head of Function (Council Business)/Monitoring Officer



**GWYBODAETH GEFNDIROL I YMGEISWYR**  
**BACKGROUND INFORMATION FOR APPLICANTS****Y Pwyllgor Safonau**

- Dan gyfraith gwlad mae'n rhaid i'r Cyngor Sir sefydlu Pwyllgor Safonau.
- Mae gwaith y Pwyllgor Safonau yn berthnasol i'r holl gynghorwyr sir a chynghorwyr tref/cymuned sy'n cynrychioli etholwyr Ynys Môn.
- Mae'r Pwyllgor Safonau yn chwarae rhan ganolog yn y fframwaith moesegol sy'n llywodraethu ymddygiad aelodau awdurdodau lleol. Mae pob aelod o awdurdod lleol ac o bob cyngor cymuned a thref wedi ymrwymo i ddilyn Cod Ymddygiad yr Aelodau. Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan y cynghorwyr hyn a'u cynorthwyo i gadw at God Ymddygiad yr Aelodau.
- Y rhain yw prif ddyletswyddau'r Pwyllgor Safonau :-
  - Gweithredu ar adroddiadau Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yng nghyswllt unrhyw haerid fod Cynghorydd wedi torri'r côd ymddygiad. Efallai y gofynnir i'r Pwyllgor Safonau gynnal gwrandawriad ac, os ydyw'n briodol, i benderfynu ar gosb i gynghorydd ar ôl sefydlu bod hwnnw neu honno wedi torri'r côd ymddygiad. Y gosb fwyaf y gall y Pwyllgor Safonau ei rhoi yw atal unigolyn rhag bod yn gynghorydd am gyfnod o chwe mis, neu weddill cyfnod yr aelod os yw'n fyrrach.
  - Ystyried ceisiadau am ganiatâd

**The Standards Committee**

- The County Council is legally required to operate a Standards Committee.
- The work of the Standards Committee extends to all county councillors and town/community councillors representing the electorate of Anglesey.
- The Standards Committee plays a central role in the ethical framework that governs the conduct of elected and co-opted councillors. Every member of a local authority and of every town and community council has undertaken to abide by the Code of Conduct for members. The Committee's main role is to promote and maintain high standards of conduct by these councillors and to assist them to observe the Members' Code of Conduct.
- The main functions of the Standards Committee are :-
  - To act on reports received from the Public Services Ombudsman for Wales (PSOW) concerning any allegation that a councillor has breached the code of conduct. The Standards Committee may be asked to conduct a hearing and, if appropriate, it will issue a sanction against any councillor whom it finds has breached the code of conduct. The maximum sanction available to the Standards Committee is suspension from being a councillor for six months, or the remainder of the councillor's term, if shorter.
  - To consider applications from

arbennig gan gynghorwyr. Os ydyw'r caniatâd arbennig yn cael ei roddi yna gall y cynghorydd gyfranogi mewn trafodaeth a phleidleisio ar eitem neu eitemau na châi, fel arall ac oherwydd darpariaeth yn y côd ymddygiad, gyfrannu yn ei chylch/cylch.

Penderfynir ar geisiadau o'r fath fesul un gan ddibynnu ar a ydyw'r dystiolaeth a gyflwynwyd yn sefydlu rheswm statudol sy'n caniatáu i'r Pwyllgor Safonau roddi caniatâd arbennig o'r fath. Dan yr amgylchiadau hyn rhaid i'r Pwyllgor Safonau fodloni'i hun bod y budd cyhoeddus yn ystyriaeth bwysicach nag unrhyw waharddiad yn y côd.

- Sicrhau fod y cynghorwyr yn cael hyfforddiant digonol yng nghyswllt y côd ymddygiad.
- Ar Bwyllgor Safonau Ynys Môn mae pump o aelodau annibynnol (h.y aelodau o'r cyhoedd, nid cynghorwyr), dau gynghorydd sir a dau cynghorydd tref/cymuned sydd ond yn cyfrannu at y drafodaeth pan fo'r pwnc yn ymwneud â chynghorydd tref neu gymuned. Rhaid dewis un o blith yr aelodau annibynnol i fod yn gadeirydd y Pwyllgor Safonau.
- Bydd cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau yn cael eu cynnal ym Mhencadlys y Cyngor yn Llangefni ddwy waith y flwyddyn ym mis Mawrth a Medi. Bydd cyfarfodydd yn dechrau am 2yp ac yn cael eu cynnal ar ail ddydd Mercher y mis.

Bydd y gwrandawiadau yn gyhoeddus ond bydd y trafodaethau a'r broses o benderfynu'n cael eu cynnal yn breifat gyda'r penderfyniad wedyn yn cael ei ddatgan yn gyhoeddus.

Cynhelir sesiynau hyfforddiant yn breifat

councillors for dispensations. If granted, a dispensation allows a councillor to take part in discussion and voting on an item or items from which he/she would otherwise be precluded by reason of a provision in the code of conduct. These applications are decided on a case by case basis, depending upon whether the evidence presented establishes one of the statutory grounds which permit the Standards Committee to grant such dispensations. In essence, these are circumstances in which the Standards Committee is satisfied that the public interest has been shown to override a prohibition in the code.

- To ensure that councillors are offered adequate training with regard to the code of conduct.
- Anglesey's Standards Committee consists of five independent members (i.e. members of the public and not councillors), two county councillors and two town/community councillors who contribute to proceedings only when they relate to a town or community councillor. The chair of the Standards Committee must be appointed from among the independent members.
- Meetings of the Standards Committee will take place at the Council's Headquarters in Llangefni biannually in March and September. The meetings start at 2pm and are held on the second Wednesday of the month. .

Hearings will be conducted in public but deliberations and decision making will take place in private session and the outcome will be announced in public.

Training sessions will also take place in

hefyd.

- Yn ôl Cyfansoddiad y Cyngor, rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyfarfod yn ffurfiol ddwy waith y flwyddyn; bydd unrhyw gyfarfodydd ychwanegol yn cael eu trefnu fel bo'r angen gan dibynnu ar nifer yr adroddiadau a ddaw o Swyddfa'r Ombwdsmon ac ar y nifer o geisiadau am ganiatâd arbennig, yn ogystal ag unrhyw gyfarfodydd anffurfiol â drefnir yn ôl y galw.
- Mae'r Pwyllgor Safonau yn derbyn cefnogaeth Swyddog Monitro'r Cyngor a'r Cyfreithiwr (Llywodraethiant Corfforaethol). Swyddogion Gwasanaethau Democraataidd y Cyngor sydd yn delio gyda materion gweinyddol. Mae'r swyddogion hyn wrth law bob amser i gynnig cyngor a chymorth a nhw sydd yn paratoi y rhan fwyaf o'r dogfennau yn ôl cyfarwyddyd y Pwyllgor Safonau / Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
- Mae'n rhaid i bob cyngor sir/tref/ cymuned fabwysiadu côd ymddygiad statudol a gallant ychwanegu gofynion ato. Hefyd rhaid i bob cynghorydd lofnodi ymrwymiad i gydymffurfio gyda'r côd. Mae copi o'r côd sy'n berthnasol i holl cynghorwyr sir Ynys Môn yn **Atodiad 2** o'r pecyn. Fel aelod o'r Pwyllgor Safonau, bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus ymrwymo i'r Côd Ymddygiad ac felly byddem yn eich gynghori i gyfarwyddo eich hunain efo'r gofynion.
- Mae aelodau'r Pwyllgor Safonau yn derbyn taliadau yn unol â'r Cynllun Lwfansau a fabwysiedir yn flynyddol gan y Cyngor Sir. Dyma'r linc i'r fersiwn gyfredol o'r cynllun

<http://www.ynysmon.gov.uk/Journals/f/g/z>

private.

- In accordance with the Council's Constitution, the Standards Committee must meet formally on two occasions a year; any additional meetings will be arranged as required, depending on the number of reports referred from the PSOW and the number of applications for dispensations, in addition to any informal business meetings which are arranged as required.
- The work of the Standards Committee is supported by the Council's Monitoring Officer and Solicitor (Corporate Governance). Administrative matters are dealt with by the Council's Democratic Services Officers. These officers are on hand throughout the process to advise and assist. They are responsible for preparing most of the documentation on the instructions of the Standards Committee / Public Services Ombudsman for Wales.
- All county/town/community councils are required to adopt a statutory code of conduct to which they may add additional requirements. All councillors are required to sign an undertaking to abide by the code. A copy of the code which applies to all Anglesey county councillors is at **Enclosure 2** of this pack. As a member of the Standards Committee, the successful applicant will be bound by the Code of Conduct and so you are advised to familiarise yourself with the requirements.
- Members of the Standards Committee are remunerated in accordance with the Scheme of Allowances adopted annually by the County Council. The link to the current version is at

<http://www.anglesey.gov.uk/Journals/r/j/x>

## [/Rhan-6-Cynllun-Lwfansau-i-Aelodau-Cyngor-Sir-Ynys-Mon.pdf](#)

Mae aelodau annibynnol y Pwyllgor Safonau yn y categori “aelodau cyfetholedig”.

Mae copi caled hefyd ynghlwm yn **Atodiad 3**.

- Mae gan y Cyngor bolisi dwyieithog a bydd gwasanaethau cyfieithu ar gael fel bod siaradwyr Cymraeg a Saesneg yn medru chwarae rhan lawn yng ngwaith y Pwyllgor Safonau.
- Mae'r Pwyllgor Safonau yn gorff statudol sy'n annibynnol o'r Cyngor ac yn derbyn ei gyfarwyddiadau yn uniongyrchol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.

### **Y broses recriwtio gyfredol**

- Mae tymor pedwar o'r aelodau annibynnol ar y Pwyllgor Safonau yn gorffen yn Rhagfyr 2019 ac mae'r Cyngor Sir yn bwriadu apwyntio ar gyfer y swyddi gwag yma fel fod cyfnod yn dilyn y penodiad ar gyfer yr ymgeiswyr llwyddiannus i gysgod i'r aelodau presennol ar y pwyllgor.
- I bwrpas dewis aelod annibynnol newydd o'r Pwyllgor Safonau mae'n rhaid i'r Cyngor, dan y rheoliadau, sefydlu Panel Dethol i benderfynu ar feini prawf, hysbysebu, paratoi rhestr fer a dethol, trwy gyfweiliad, yr ymgeisydd llwyddiannus ar gyfer y swydd wag gyfredol. Ar Y Panel Dethol mae pum aelod – tri chynghorydd sir, sef y Cynghorwyr Gwilym Jones, Robert Llewelyn Jones a Margaret Murley Roberts. Hefyd mae arno un cynghorydd tref/cymuned, sef Cynghorydd Gordon

## [Part-6-Scheme-of-Members-Allowances-for-the-Isle-of-Anglesey-County-Council.pdf](#)

Independent members of the Standards Committee fall into the category of “co-opted” members.

A hard copy is also attached at **Enclosure 3**.

- The Council operates a bilingual policy and there will be translation services available to enable both Welsh and English speakers to participate fully in the Standards Committee's work
- The Standards Committee is a statutory body which is independent of the Council receiving instructions direct from the Public Services Ombudsman for Wales.

### **The current recruitment exercise**

- The term of four independent members of the Standards Committee ends in December 2019 and the County Councils intends to appoint to these vacancies so that there is a period following selection when successful applicants can shadow the current committee members.
- In order to choose the new independent members of the Standards Committee, in compliance with the regulations, the Council has established a Selection Panel to devise the criteria, advertise, short-list and select, by interview, the successful applicant to fill the current vacancy. The Selection Panel consists of five members, including three county councillors, who are Councillors Gwilym Jones, Robert Llewelyn Jones and Margaret Murley Roberts. In addition

Warren o Gyngor Tref Amlwch ac un aelod lleyg, sef Mrs Teleri Jones. Bydd argymhelliad y Panel Dethol yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn a bydd raid i hwnnw benodi'n ffurfiol yr aelod newydd o'r Pwyllgor Safonau.

there will be one town/community councillor, who is Councillor Gordon Warren of Amlwch Town Council, and one lay member, who is Mrs Teleri Jones. The Selection Panel will recommend its selection to the full Council, which must formally appoint the new member of the Standards Committee.

- Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cael ei ddewis/dewis yn ôl haeddiant. Y Panel Dethol fydd yn dadansoddi'r holl geisiadau ysgrifenedig a rhaid i'r rheini gyrraedd erbyn 5yh ar **dyddiad**. Ni fydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried. Os ydyw'n briodol bydd y Panel Dethol yn paratoi rhestr fer o ymgeiswyr i'r Panel eu cyfweld trwy wahoddiad. Bydd yr holl ymgeiswyr yn cael gwybod am y sefyllfa ar ôl llunio rhestr fer a chânt wybod beth fydd y canlyniad cyn gynted ag sy'n bosibl ar ôl cwblhau'r holl gyfweiliadau, ac ar ôl i'r Panel Dethol dderbyn a dadansoddi'r tystlythyrau.
- Ar y Ffurflen Gais rhestrir y gwaharddiadau statudol sy'n golygu na fydd yn bosibl i rai unigolion ymgeisio, yn ogystal â materion eraill gallai'r Panel ei ystyried fel ei fod yn effeithio gallu'r unigolyn i ymgeisio. Cyn cyflwyno'ch cais gofynnir i ymgeiswyr roddi sylw arbennig i'r gofynion hynny.
- Rhaid i geisiadau gael eu cyflwyno ar Ffurflenni Cais penodol sydd i'w weld yn **Atodiad 4**.
- Am gopi o'r ffurflen gais a/neu mwy o wybodaeth, cysylltwch, os gwelwch yn dda, efo'r Pennaeth Gwasanaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, Adain Gyfreithiol, Swyddfa'r Cyngor, Llangefni LL77 7TW. Rhif ffôn 01248 752586 neu ar
- The successful applicant will be selected on merit. The Selection Panel will analyse all written applications which have been received by the deadline at 5pm on **date**. No late applications will be considered. If appropriate, the Selection Panel will produce a short list of candidates to be invited for interview by the Panel. All applicants will be notified of the position following the short listing and those attending for interview will be advised of the outcome as soon as possible after all interviews have been conducted, references have been received and analysis has been completed by the Selection Panel.
- The Application Form identifies statutory prohibitions which will disqualify some potential applicants, in addition to other matters which the Panel may deem affects the individual's ability to apply. Applicants are asked to give particular consideration to these requirements before submitting an application.
- Applications must be submitted on the appropriate Application Form, which appears at **Enclosure 4**.
- For a copy of the application form and /or further details, please contact the Head of Function (Council Business)/Monitoring Officer, Legal Section, Isle of Anglesey County Council, Council Offices, Llangefni LL77

wefan y Cyngor ar \*\*\*\*linc \*\*\*\*

7TW. Telephone 01248 752586 or on the Council website \*\*\*\*link\*\*\*\*

- Rhaid i ffurflenni cais terfynol gael eu derbyn yn y cyfeiriad uchod erbyn dim hwyrach na 5yh ar **DYDDIAD**
- Mae'r Cyngor yn cynnig cynnal y cyfweiliadau yn ystod y cyfnod rhwng **dyddiad** a **dyddiad**.
- Completed application forms must be received at the above address by no later than 5pm on **DATE**
- The Council would propose holding interviews during the period commencing **date and date**.

## 5.1 Côt Ymddygiad i Aelodau

Dyma'r Côt Ymddygiad a fabwysiadwyd gan y Cyngor Sir ar 12.05.2016

### Rhan 1 – Dehongli

1. (1) Yn y cod hwn

mae “aelod” (“member”) yn cynnwys aelod cyfetholedig onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall;

ystyr “aelod cyfetholedig” (“co-opted member”), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yw person nad yw'n aelod o'r awdurdod ond -

(a) sy'n aelod o unrhyw bwyllgor neu is-Bwyllgor i'r awdurdod, neu

(b) sy'n aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd is-Bwyllgor i'r awdurdod, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod arno

ac sydd â'r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i'w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o'r pwyllgor neu o'r is-Bwyllgor hwnnw;

ystyr “eich awdurdod” (“your authority”) yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono;

ystyr “awdurdod perthnasol” (“relevant authority”) yw -

(a) cyngor sir,

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(ch) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo,

(d) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995;

ystyr “cofrestr o fuddiannau'r aelodau” (“register of members' interests”) yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr “cyfarfod” (“meeting”) yw unrhyw gyfarfod -

(a) o'r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod perthnasol,



(c) o unrhyw bwyllgor, Is-Bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-Is-Bwyllgor i'r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cyd-bwyllgor neu gyd-is-bwyllgor o'r fath i unrhyw weithrediaeth neu fwrdd i'r awdurdod, neu

(ch) y mae aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol ynddo ac eithrio cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 o Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990 ,

ac mae'n cynnwys amgylchiadau lle mae aelod o weithredaeth neu fwrdd neu swyddog yn gweithredu ar ei ben ei hun yn cyflawni swyddogaeth awdurdod

ystyr "chi" ("you") yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol.

(2) Mewn perthynas â chyngor cymuned—

(a) ystyr "swyddog priodol" ("proper officer") yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972; a

(b) ystyr "pwyllgor safonau" ("standards committee") yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000.

## **Rhan 2 - Darpariaethau Cyffredinol**

2. (1) Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn gymwys, rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn -

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu eich penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, yn honni gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel un o gynrychiolwyr eich awdurdod; neu

(ch) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn cysylltiad ag ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a ragnodir o dan adran 49(2) o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

3. Os byddwch wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu -

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu ar unrhyw gorff arall, sy'n cynnwys awdurdod heddlu neu Fwrdd Iechyd Lleol rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu



(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo gôd sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r côd ymddygiad hwn, ac eithrio pan yw'n gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt neu i'r graddau y mae'n gwrthdaro â'r cyfryw rwymedigaethau.

#### 4. Rhaid i chi -

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth fo'u rhyw, eu hil, eu hanabledd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hoed neu eu crefydd;

(b) ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt;

(c) beidio ag ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson;

(ch) beidio â gwneud dim sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debygol o gyfaddawdu, didueddrwydd y sawl sy'n gweithio i'ch cyngor neu ar ei ran; a

(d) mynychu o leiaf un sesiwn hyfforddiant ar y côd ymddygiad hwn yn ystod pob tymor llawn yn y swydd ac, yn achos yr aelodau hynny sydd wedi cael eu hethol i'r Cyngor Sir am y tro cyntaf a'r rheiny sydd wedi cael eu hailethol ond nad ydynt wedi treulio cyfnod didor yn y swydd, rhaid iddynt fynychu'r hyfforddiant yn ystod y chwe mis yn dilyn eu hethol.

#### 5. Rhaid i chi -

(a) beidio â datgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y byddai'n rhesymol ystyried ei bod o natur gyfrinachol, heb gydsyniad datganedig person a awdurdodwyd i roi cydsyniad o'r fath, neu onid yw'r gyfraith yn mynnu eich bod yn gwneud hynny;

(b) beidio â rhwystro unrhyw berson rhag gweld gwybodaeth y mae gan y person hwnnw hawl i'w gweld yn ôl y gyfraith.

#### 6. (1) Rhaid i chi -

(a) beidio ag ymddwyn mewn ffordd y gellid yn rhesymol ei hystyried yn un sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu ar eich awdurdod;

(b) adrodd, p'un ai drwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, ar unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu gan unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran ac y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn golygu neu'n debygol o olygu ymddygiad troseddol (nad yw at ddibenion y paragraff hwn yn cynnwys tramgwyddau neu ymddygiad y gellir ei gosbi drwy gosb benodedig);

(c) roi gwybod i swyddog monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r côd ymddygiad hwn;

(ch) beidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu wamal yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod neu ar ei ran.

(2) Rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn cysylltiad ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

7. Rhaid i chi -

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall;

(b) beidio â defnyddio adnoddau eich awdurdod, neu awdurdodi eraill i'w defnyddio -

(i) yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi eich ethol neu eich penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

8. Rhaid i chi -

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu'n gwneud penderfyniadau ynghylch busnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef, wneud hynny ar sail rhinweddau'r amgylchiadau o dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarperir gan swyddogion eich awdurdod, ac yn benodol gan -

(i) pennaeth gwasanaeth taledig yr awdurdod;

(ii) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog A151 yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro'r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori ag ef pan fo unrhyw amheuaeth ynghylch pŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam a arfaethir yn dod o fewn y fframwaith polisi y cytunwyd arno gan yr awdurdod neu os gallai canlyniadau cyfreithiol gweithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod gael ôl-ffeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion rhesymol ychwanegol a osodir gan eich awdurdod.

9. Rhaid i chi -

(a) barchu'r gyfraith a rheolau eich awdurdod sy'n llywodraethu hawlio treuliau a lwfansau mewn cysylltiad â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny.

### **Rhan 3 - Buddiannau**

#### Buddiannau Personol

10. (1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych fuddiant personol, ac a yw'r côd ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r buddiant hwnnw.

(2) Rhaid i chi ystyried bod gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef -

(a) os yw'n gysylltiedig â'r canlynol, neu'n debygol o effeithio arnynt -

(i) unrhyw gyflogaeth yr ydych yn ymgymryd â hi neu fusnes yr ydych yn ei redeg;

(ii) unrhyw berson sy'n eich cyflogi neu sydd wedi eich penodi, unrhyw ffyrm yr ydych yn bartner ynddi neu unrhyw gwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw berson, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â'ch ethol neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a gawsoch wrth i chi gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae ganddo le busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sydd gan y corff hwnnw ac sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed ran o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract am nwyddau, gwasanaethau neu waith neu waith a wnaed rhyngoch chi, rhwng ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, neu rhwng cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu rhwng corff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod a'ch awdurdod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych fuddiant llesiannol ynddo ac sydd yn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae ffyrm yr ydych yn bartner ynddi, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw -

(aa) awdurdod cyhoeddus neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas ddiwydiannol a darbodus, elusen, neu gorff arall a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus ymhlith ei brif ddibenion;

(chch) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(dd) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod

ac yn berthnasol i (aa) i (dd), yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych drwydded (ar eich pen eich hun neu ar y cyd ag eraill) i'w feddiannu am 28 o ddiwrnodau neu fwy;

[Sylwer: mae isbaragraff (b) wedi cael ei adael allan] -

(c) pe byddai'n rhesymol ystyried penderfyniad arno yn benderfyniad a fyddai'n effeithio -

(i) ar eich llesiant neu eich sefyllfa ariannol, neu lesiant neu sefyllfa ariannol person yr ydych yn byw gydag ef, neu unrhyw berson y mae gennych gysylltiad personol agos ag ef;

(ii) ar unrhyw gyflogaeth yr ymgymerir â hi neu fusnes a redir gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i);

(iii) ar unrhyw berson sy'n cyflogi neu sydd wedi penodi'r cyfryw bersonau ag a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i), unrhyw ffyrm y mae'r cyfryw bersonau'n bartneriaid ynddi, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr arno;

(iv) ar unrhyw gorff corfforaethol y mae gan bersonau fel a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) ar unrhyw gorff a restrir ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (dd) y mae personau a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

ac yn berthnasol i (i) i (v), a hynny i raddau mwy -

(aa) yn achos awdurdod â dosbarthiadau etholiadol neu wardiau, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn y dosbarth etholiadol neu'r ward, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu'r dreth gyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill yn ardal yr awdurdod.

## Datgelu Buddiannau Personol

11. (1) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn bresennol mewn cyfarfod lle y caiff y busnes hwnnw ei ystyried, rhaid i chi ddatgelu ar lafar gerbron y cyfarfod hwnnw fodolaeth a natur y

buddiant hwnnw cyn i'r cyfarfod ystyried y busnes neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan ddaw'r buddiant i'r amlwg.

(2) Pan fydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch yn gwneud -

(a) cynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod ynghylch y busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion am y buddiant hwnnw yn y gyfathrebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) cynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) i un o aelodau neu o swyddogion eich awdurdod dylech ddatgelu'r buddiant ar ddechrau'r cyfryw gynrychioliadau, neu pan ddaw'n amlwg i chi fod gennych fuddiant o'r fath, a chadarnhau'r cynrychioliad a'r buddiant yn ysgrifenedig o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y cynrychioliad.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14(1)(b) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef ac y byddwch wedi gwneud penderfyniad wrth arfer un o swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd, rhaid i chi mewn perthynas â'r busnes hwnnw sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig ynghylch y penderfyniad hwnnw'n cofnodi bodolaeth a natur eich buddiant.

(4) Rhaid i chi, mewn cysylltiad â buddiant personol nas datgelwyd eisoes, cyn cyfarfod neu'n syth ar ôl diwedd cyfarfod pan ddatgelir y buddiant yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodir gan swyddog monitro eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond, rhaid cynnwys o leiaf -

(a) manylion am y buddiant personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r buddiant personol yn gysylltiedig ag ef; ac

(c) eich llofnod

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod yr wybodaeth sy'n ymwneud â'ch buddiant personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan y paragraff 11 hwn i ddatgelu'r cyfryw wybodaeth, p'un ai ar lafar neu'n ysgrifenedig, i'w disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth buddiant personol ac i gadarnhau bod eich swyddog monitro wedi cytuno bod y cyfryw fuddiant personol o natur gwybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), dim ond os bod hysbysiad ysgrifenedig wedi ei ddarparu yn unol â'r côd hwn ers y dyddiad diwethaf pryd yr etholwyd chi, y penodwyd chi neu yr enwebwyd chi'n aelod o'ch awdurdod y bernir bod buddiant personol wedi ei ddatgelu eisoes.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw bernir na fyddwch wedi datgan buddiant personol yn unol â'r côd hwn.

Buddiannau sy'n Rhagfarnu

12. (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2) isod, os bydd gennych fuddiant personol mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu yn y busnes hwnnw os bydd y buddiant yn un y bydd yn rhesymol i aelod o'r cyhoedd sy'n gwybod y ffeithiau perthnasol fod o'r farn ei fod mor arwyddocaol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch buddiant cyhoeddus.

(2) Yn amodol ar (3), nid ystyrir bod gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes os bydd y busnes hwnnw -

(a) yn gysylltiedig -

(i) ag awdurdod perthnasol arall yr ydych hefyd yn aelod ohono;

(ii) ag awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle yr ydych mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol;

(iii) â chorff yr ydych wedi cael eich ethol, eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) â'ch rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol yr ydych yn un o'i llywodraethwyr;

(v) â'ch rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn gysylltiedig:

(i) â swyddogaethau tai eich awdurdod os oes gennych denantiaeth neu les gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes arnoch i'ch awdurdod ôl-ddyledion rhent o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau hynny'n ymwneud yn arbennig â'ch tenantiaeth neu â'ch les;

(ii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, os ydych chi'n warchodwr, yn rhiant, yn fam-gu neu'n nain neu'n dad-cu neu'n daid, neu os oes gennych gyfrifoldeb rhiant (fel y'i diffinnir yn adran 3 o Deddf Plant 1989) dros blentyn sy'n cael addysg amser llawn, onid yw'r busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â thâl salwch statudol o dan Ran XI o Ddeddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, os ydych yn cael, neu os oes gennych hawl i gael, taliad o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) â swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir yn unol â darpariaethau Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(c) yn gysylltiedig â'ch rôl fel cynghorydd cymunedol mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall ar gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrrff cymunedol neu wirfoddol hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r esemptiadau yn is-baragraff (2)(a) yn gymwys os yw'r busnes yn gysylltiedig â dyfarnu ar unrhyw gymeradwyaeth, cydsyniad, trwydded, caniatâd neu gofrestrriad.

#### Pwyllgorau Trosolwg a Sgriwtini

13. Bydd gennych hefyd fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron un o bwyllgorau trosolygu a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) -

(a) os bydd y busnes hwnnw'n gysylltiedig â phenderfyniad a wnaed (p'un a gafodd ei weithredu ai peidio) neu gam a gymerwyd gan weithrediaeth, bwrdd, neu un arall o bwyllgorau, is-bwyllgorau, cyd-bwyllgorau neu o gyd-is-bwyllgorau eich awdurdod; a

(b) os oeddech chi, ar yr adeg pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam, yn aelod o'r weithrediaeth, y bwrdd, y pwyllgor, yr is-bwyllgor, y cyd-bwyllgor neu'r cyd-is-bwyllgor a grybwyllir yn is-baragraff (a) a'ch bod chi'n bresennol pan wnaed y penderfyniad hwnnw neu pan gymerwyd y cam hwnnw.

#### Cyfrannu mewn Perthynas â Datgelu Buddiannau

14. (1) Yn amodol ar is-baragraffau (2), (2A) (3) a (4), os bydd gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef rhaid i chi, oni roddwyd i chi ganiatâd arbennig gan bwyllgor safonau eich awdurdod -

(a) ymadael â'r ystafell, y siambr neu'r man lle y mae cyfarfod i ystyried y busnes yn cael ei gynnal -

(i) pan fo is-baragraff (2) yn gymwys, yn syth ar ôl i'r cyfnod ar gyfer gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes ddod i ben a beth bynnag cyn i ystyriaeth bellach o'r busnes ddechrau, p'un a ganiateir i'r cyhoedd aros yn bresennol ar gyfer y cyfryw ystyriaeth ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pa bryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes hwnnw'n cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau gweithrediaeth neu fwrdd mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y busnes hwnnw;

(ch) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau ysgrifenedig (p'un ai drwy lythyr, neges ffacs neu ar ryw ffurf arall ar gyfathrebu electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw; a

(d) peidio â gwneud unrhyw gynrychioliadau llafar (p'un ai'n bersonol neu ar ryw ffurf ar gyfathrebu electronig) mewn cysylltiad â'r busnes hwnnw neu rhaid i chi roi'r gorau ar unwaith i wneud y cyfryw gynrychioliadau llafar pan ddaw'r buddiant sy'n rhagfarnu i'r amlwg.

(2) Os oes gennych fuddiant sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes y mae a wnelo eich awdurdod ag ef cewch fod yn bresennol mewn cyfarfod ond dim ond er mwyn gwneud cynrychioliadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth sy'n ymwneud â'r busnes, ar yr amod

y caniateir hefyd i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod i'r un diben, p'un ai o dan hawl statudol neu fel arall.

(2A) lle mae gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu ym musnes yr awdurdod, gallwch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod mewn perthynas â'r busnes hwnnw ar yr amod y caniateir i'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod i bwrpas gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth am y busnes p'un a yw'n statudol ai peidio.

(2B) wrth gyflwyno sylwadau ysgrifenedig dan baragraff (2A), rhaid i chi gydymffurfio gydag unrhyw weithdrefn y gall eich awdurdod ei mabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau o'r fath.

(3) Nid yw is-baragraff (1) yn eich rhwystro rhag bod yn bresennol a chyfrannu mewn cyfarfod -

(a) os gofynnir i chi fod yn bresennol mewn cyfarfod o bwylgor trosolwg neu sgrwtini, gan y cyfryw bwylgor ac yntau'n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o fod â chaniatâd arbennig ar yr amod -

(i) eich bod yn datgan yn y cyfarfod eich bod yn dibynnu ar y gollyngiad; a

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu'n syth ar ôl i'r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod a bod hwnnw'n cynnwys -

(aa) manylion y diddordeb sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion y busnes y mae'r diddordeb sy'n rhagfarnu'n gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion y caniatâd arbennig a'r dyddiad pryd y'i rhoddwyd; a

(chch) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych ddiddordeb sy'n rhagfarnu a'ch bod yn gwneud cynrychioliadau ysgrifenedig neu lafar i'ch awdurdod gan ddibynnu ar ganiatâd arbennig, rhaid i chi ddarparu manylion am y caniatâd arbennigmewn unrhyw sylwadau a wnewch yn ysgrifenedig neu ar lafar ac, yn yr achos olaf hwn, rhaid i chi ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer eich awdurdod o fewn 14 o ddiwrnodau ar ôl gwneud y sylwadau.

#### **Rhan 4 - Cofrestr o Ddiddordebau'r Aelodau**

Cofrestru Buddiannau Personol

15. (1) yn amodol ar is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl -

(a) i gôd ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y côd enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i'ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu eich penodi i swydd (os digwydd hynny'n ddiweddarach),



gofrestru eich buddiannau personol, os ydynt yn dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau, drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw fuddiant personol newydd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r buddiant personol newydd hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw newid i fuddiant personol a gofrestrwyd sy'n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru'r newid hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o fuddiannau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.

(4) Nid yw is-baragraffau (1) a (2) a (3) yn gymwys i wybodaeth sensitif a benderfynir yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Ni fydd is-baragraff (1) a (2) yn gymwys os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

#### Gwybodaeth sensitif

16. (1) Os byddwch yn ystyried bod yr wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un neu rai o'ch buddiannau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes angen i chi gynnwys yr wybodaeth honno pan fyddwch yn cofrestru'r diddordeb hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, newid i'r diddordeb o dan baragraff 15.

(2) Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o unrhyw newid yn eich amgylchiadau sy'n golygu nad yw gwybodaeth sydd wedi ei heithrio o dan is-baragraff (1) mwyach yn wybodaeth sensitif, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod gan ofyn am i'r wybodaeth gael ei chynnwys yng nghofrestr diddordebau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, ystyr "gwybodaeth sensitif" ("sensitive information") yw gwybodaeth y mae ei rhoi ar gael i'w harchwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg ddifrifol y gallech chi neu berson sy'n byw gyda chi fod yn destun trais neu fgythion.

#### Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

17. Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n fwy na gwerth a bennir mewn penderfyniad gan eich awdurdod, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Dylai hysbysiad ysgrifenedig o'r fath gael eu darparu [yma](#).

## Cyngor Sir Ynys Môn

### RHESTR CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU

Mae'r Rhestr hon yn cael ei gwneud o dan Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â Rheoliadau Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol Cymru (IRPW) sy'n gymwys ar gyfer daliadau a wneir i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau lleol.

#### 1.0 Cyflog Sylfaenol

- 1.1 Bydd Cyflog Sylfaenol yn cael ei dalu i bob Aelod etholedig o'r Awdurdod ac ni fydd raid cyflwyno cais am hyn.
- 1.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd gyfradd y Cyflog Sylfaenol yn cael ei hadolygu bob blwyddyn fel y penderfynir gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- 1.3 Lle mae'r cyfnod swydd Aelod yn dechrau neu'n gorffen heblaw am ar ddechrau neu ddiwedd blwyddyn, bydd ei hawl ef/hi i gael y Cyflog Sylfaenol ar statws pro-rata.
- 1.4 Nid oes mwy nag un Cyflog Sylfaenol yn daladwy i Aelod o'r Awdurdod

#### 2.0 Cyflogau Uwch a Chyflogau Dinesig

- 2.1 Bydd Aelodau mewn swyddi penodol yn cael ei dalu Uwch Gyflog fel y nodir yn **Atodlen 1** ac ni fydd raid cyflwyno cais am hyn.
- 2.2 Yn unol â'r Rheoliadau, bydd y cyfraddau Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig yn cael eu hadolygu'n flynyddol fel y pennir gan Adroddiad Blynyddol neu Atodol Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- 2.3 Dim ond un Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig sy'n daladwy i Aelod o'r Awdurdod.
- 2.4 Ni all Aelod o'r Awdurdod gael ei dalu Uwch Gyflog a Chyflog Dinesig.
- 2.5 Pan fo aelod yn dal mwy nag un swydd sydd â hawl i Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig, dim ond y mwyaf o'r rhain sy'n daladwy.
- 2.6 Mae pob Cyflog Uwch a Dinesig yn cynnwys y Cyflog Sylfaenol.
- 2.7 Ni chaiff Cyflog Uwch ei dalu i fwy na nifer yr aelodau a bennir gan y Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn ei Adroddiad Blynyddol ac ni all fod yn fwy na hanner cant y cant o gyfanswm aelodaeth yr awdurdod.
- 2.8 Os yw gweithrediad y cynllun hwn yn arwain at gyfanswm rhif yr aelodau sydd â hawl i Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig i fod yn fwy nag un ar bymtheg, ni fydd y cyflogau yn y band isaf yn daladwy.
- 2.9 **Ni all** Aelod o'r Awdurdod yn derbyn Uwch Gyflog (Band 1 na Band 2) gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol (APC) neu Awdurdod Tân ac Achub (ATA) y mae ef / hi wedi cael ei enwebu iddynt.

- 2.10 Lle mae'r tymor Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog neu Gyflog Dinesig yn dechrau neu'n gorffen tu allan i ddechrau neu ddiwedd y flwyddyn arferol, bydd ei hawl ef/hi i Gyflog fod yn pro-rata.
- 2.11 Ni fydd Uwch Gyflogau na Chyflogau Dinesig yn cael eu talu unwaith y bydd Aelod yn peidio â bod yn Gyngorydd am unrhyw reswm, neu yn peidio â dal y swydd berthnasol y mae cyfrifoldeb ynghlwm wrthi.
- 2.12 Telir y lwfans Arweinydd Prif Grwp Gwrthblaid i Arweinydd y Grwp gwleidyddol mwyaf sydd heb Aelodau ar y Pwyllgor Gwaith. Os oes mwy nag un grwp mwyaf o faint cyfartal, rhennir y lwfans Prif Grwp Gwrthblaid rhyngddynt yn gyfartal.

### **3.0 Penderfyniad i Beidio â Derbyn y Lwfans**

- 3.1 Gall Aelod, drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i Swyddog Priodol yr awdurdod, yn bersonol ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i unrhyw gyflog, lwfans neu ffi sy'n daladwy o dan y Cynllun hwn o'r dyddiad a nodir yn yr hysbysiad. Gall yr Aelod perthnasol, ar unrhyw adeg, ddiwygio neu ddileu unrhyw drefniadau a wnaed i ildio lwfans. Os ydyw Aelod yn dileu trefniadau i ildio lwfans yna nid oes modd ôl-ddyddio'r lwfans hwnnw.

### **4.0 Atal Aelod**

- 4.1 Pan fydd Aelod o'r Awdurdod yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, o'i gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, mae rhan y Cyflog Sylfaenol sy'n daladwy iddo / iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei atal yn cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod (Adran 155 (1) o'r Mesur).
- 4.2 Pan fydd Aelod sy'n derbyn Uwch Gyflog yn cael ei atal, yn llwyr neu'n rhannol, rhag bod yn Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i'r Awdurdod peidio â gwneud taliadau Uwch Gyflog i'r Aelod drwy gydol cyfnod yr ataliad (Adran 155 (1) o'r Mesur).

### **5.0 Ad-dalu cyflogau, lwfansau neu ffioedd**

- 5.1 Pan fydd taliad unrhyw gyflog, lwfans neu ffi wedi cael ei wneud i Aelod o'r Awdurdod neu Aelod Cyfetholedig mewn perthynas ag unrhyw gyfnod pan fydd yr Aelod dan sylw:
- (a) wedi'i h/atal neu ei h/atal dros dro o ddyletswyddau neu gyfrifoldebau Aelod / Aelod Cyfetholedig yn unol â Rhan 3 o'r Ddeddf 2000 neu â rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno;
  - (b) wedi rhoi'r gorau ar fod yn Aelod o'r Awdurdod neu'r Aelod Cyfetholedig
  - (c) neu mewn unrhyw ffordd arall heb yr hawl i dderbyn cyflog, lwfans neu ffi mewn cysylltiad â'r cyfnod hwnnw,

bydd yr Awdurdod yn ei wneud yn ofynnol bod y cyfryw ran o'r lwfans sy'n ymwneud ag unrhyw gyfnod o'r fath yn cael ei ad-dalu.

- 5.2 Pan fo lwfans mis penodol wedi'i dalu am y mis cyfan a hawl i'r lwfans wedi dod i ben yn ystod y mis hwnnw, gall y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) hawlio'r gordaliad yn ôl o unrhyw lwfansau neu gostau eraill sy'n daladwy i'r Aelod dan sylw.
- 5.3 Os oes unrhyw ordaliad arall yn cael ei wneud bydd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) yn rhoddi gwybod am hynny i'r Aelod perthnasol gyda golwg ar gytuno ar amserlen i hawlio'r arian yn ôl.

## 6.0 Taliadau

- 6.1 Anogir Aelodau i dderbyn taliadau trwy drosglwyddiad banc.
- 6.2 Pan fydd y taliad wedi arwain at Aelod yn derbyn mwy nag ganddo / ganddi hawl i gyflogau, lwfansau neu ffioedd y bydd yr Awdurdod yn gofyn bod y rhan honno sy'n ordaliad yn cael ei ad-dalu.
- 6.3 Mae'r holl daliadau yn ddarostyngedig i'r dreth briodol a didyniadau Yswiriant Gwladol.
- 6.4 Pan fo lwfansau yn cael eu talu trwy drefn hawlio yna anogir Aelodau i gyflwyno ceisiadau am fisoedd calendr cyfan i Adran y Dirprwy Brif Weithredwr erbyn y 7fed o'r mis dilynol. Dan y Rheolau Gweithdrefn Ariannol gall y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) wrthod talu hawliadau sydd ragor na thri mis yn hwyr.

## 7.0 Ad-dalu costau gofal

- 7.1 Mae'r ddarpariaeth i ad-dalu costau gofal wedi'i bwriadu i alluogi unrhyw un y byddai ei gyfrifoldebau fel gofalwr yn cyfyngu ar allu i gyfranogi fel aelod o awdurdod i gyflawni ei rôl, neu roi cymorth gofal i aelod er mwyn galluogi'r unigolyn hwnnw i gyflawni ei rôl.
- 7.2 Mae'r ad-daliad yn gymwys mewn perthynas â phlant sy'n 15 oed neu o dan a phobl eraill y mae'r Aelod neu'r Aelod Cyfetholedig yn gallu dangos bod angen gofal arnynt.
- 7.3 I gymhwyso ar gyfer ad-daliad costau gofal, bydd raid i'r Aelodau gyflwyno cais i'r Prif Weithredwr yn manylu ar y dibynyddion mewn dull a ffordd y mae ef yn ei chymeradwyo. Unwaith y bydd y cymhwyster wedi'i sefydlu a'i dderbyn gall yr Aelodau hawlio'r ad-daliad yn fisol. Rhaid cefnogi bob hawliad gyda derbynebion am y gwariant a chyfyngir hyn i ad-dalu'r gwariant.
- 7.4 Gall aelodau cymwys wneud cais am ad-daliad ar gyfer costau gwirioneddol gyda derbyneb hyd at uchafswm o ddim mwy na'r gost a bennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn **Atodlen 1**. Dylai'r holl hawliadau am ad-dalu costau gofal gael eu gwneud yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Democrataidd yn rhoi manylion amserau, dyddiadau a rhesymau dros hawlio. Mae'n ofynnol i roi derbynebau ar gyfer y ddau drefniad gofal anffurfiol a ffurfiol.

## **8.0 Absenoldeb Teuluol**

- 8.1 Mae hawl gan Aelodau o dan ddarpariaethau'r Rheoliadau Absenoldeb Teuluol ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol (Cymru) 2013 i gyfnod o absenoldeb teuluol, lle os ydynt yn bodloni'r amodau a ragnodir mai ganddynt hawl i fod yn absennol o gyfarfodydd yr awdurdod.
- 8.2 Mae gan aelod hawl i gadw cyflog sylfaenol pan fydd yn cymryd Absenoldeb Teuluol o dan y rheoliadau, beth bynnag yw'r cofnod presenoldeb yn syth cyn cychwyn yr Absenoldeb Teuluol.
- 8.3 Pan fydd uwch ddeilydd cyflog yn gymwys i gael Absenoldeb Teuluol, bydd yn gallu parhau i dderbyn y cyflog drwy gydol yr absenoldeb.
- 8.4 Mater i'r awdurdod yw penderfynu penodi dirprwy ai peidio. Bydd yr aelod sy'n dirprwyo ar ran uwch ddeiliad cyflog sy'n cymryd Absenoldeb Teuluol yn gymwys i gael cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.
- 8.5 Os yw talu i'r dirprwy yn golygu bod yr awdurdod yn talu mwy na'r uchafswm o uwch gyflogau sy'n ymwneud ag o, byddai angen cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru i ganiatáu ychwanegiad i'r uchafswm tra bydd y dirprwy yn y swydd.
- 8.6 Pan fydd yr awdurdod yn cytuno ar ddirprwy ar gyfer Absenoldeb Teuluol, rhaid hysbysu'r Panel o'r manylion o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys manylion y swydd benodol ac am ba hyd y penodwyd y dirprwy.
- 8.7 Rhaid diwygio'r atodlen cydnabyddiaeth ariannol er mwyn adlewyrchu goblygiadau'r Absenoldeb Teuluol.

## **9.0 Absenoldeb oherwydd salwch i ddeiliaid uwch gyflogau**

Nodir isod drefniadau penodol ar gyfer salwch hirdymor:

- 9.1 Caiff salwch hirdymor ei ddiffinio fel absenoldebau ardystiedig y tu hwnt i 4 wythnos.
- 9.2 Uchafswm hyd absenoldeb oherwydd salwch o fewn y cynigion hyn yw 26 wythnos neu nes bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, pa un bynnag sydd gyntaf (ond os bydd yn cael ei ailbenodi bydd unrhyw ran o'r 26 wythnos sy'n weddill yn cael ei chynnwys).
- 9.3 O fewn y terfynau hyn gall deiliad uwch gyflog sydd ar absenoldeb hirdymor oherwydd salwch barhau i gael cydnabyddiaeth ariannol am y swydd a ddelir os yw'r awdurdod yn penderfynu.
- 9.4 Mater i'r awdurdod yw penderfynu a yw'n mynd i benodi rhywun i ddirprwyo ar ran y sawl sy'n absennol ai peidio ond bydd yr aelod etholedig sy'n dirprwyo yn gymwys i gael yr uwch gyflog sy'n briodol i'r swydd.

- 9.5 Os yw talu cydnabyddiaeth ariannol i'r sawl sy'n dirprwyo'n golygu bod yr awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r uchafswm uwch gyflogau sy'n berthnasol i'r awdurdod hwnnw, fel y nodir yn yr Adroddiad Blynyddol, bydd ychwanegiad at yr uchafswm yn cael ei ganiatáu tra pery'r trefniant dirprwyo. (Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn berthnasol i gynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful pe bai'n golygu bod mwy na 50% o'r aelodaeth yn cael uwch gyflog. Ni fyddai'n berthnasol ychwaith mewn perthynas ag aelod o weithrediaeth cyngor pe bai'n golygu bod y cabinet yn mynd y tu hwnt i 10 swydd – yr uchafswm statudol).
- 9.6 Pan fo'r Cyngor yn cytuno i dalu i aelod etholedig sy'n dirprwyo, mae'n rhaid hysbysu'r Panel, a hynny o fewn 14 diwrnod i ddyddiad y penderfyniad, ynghylch y manylion gan gynnwys y swydd benodol a hyd disgwylidig y trefniant dirprwyo. Mae'n rhaid diwygio Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol yr awdurdod yn unol â hynny.
- 9.7 Nid yw'n berthnasol i aelodau etholedig o brif gynghorau nad ydynt yn ddeiliaid uwch swyddi gan eu bod yn parhau i gael cyflog sylfaenol am o leiaf chwe mis ni waeth beth fo'u presenoldeb a mater i'r awdurdod yw unrhyw estyniad y tu hwnt i'r raddfa amser hon.

## 10.0 Taliadau i Aelodau Cyfetholedig

- 10.1 Rhaid i ffi ddyddiol Aelodau Cyfetholedig (gyda darpariaeth ar gyfer taliadau hanner diwrnod) gael ei dalu i aelodau cyfetholedig, ar yr amod eu bod yn Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio.
- 10.2 Bydd taliadau yn cymryd i ystyriaeth amser yn teithio yn ôl ac ymlaen i leoliad y cyfarfod, amser rhesymol ar gyfer paratoi a hyd y cyfarfod (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).
- 10.3 Mae'r Swyddog Monitro yn cael ei dynodi fel y "swyddog priodol" a bydd yn pennu amser paratoi, amser teithio a hyd y cyfarfod, bydd y ffi yn cael ei dalu ar sail y penderfyniad hwn.
- 10.4 Gall y Swyddog Monitro benderfynu o flaen llaw a yw cyfarfod yn cael ei raglennu ar gyfer diwrnod llawn a bydd y ffi yn cael ei dalu ar sail y penderfyniad hwn hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn dod i ben cyn mae pedair awr wedi mynd heibio.
- 10.5 Mae cyfarfod hanner diwrnod yn cael ei ddiffinio fel hyd at 4 awr.
- 10.6 Mae cyfarfod diwrnod llawn yn cael ei ddiffinio fel dros 4 awr.
- 10.7 Mae'r ffi diwrnod a hanner diwrnod ar gyfer Cadeiryddion y Pwyllgor Safonau a'r Pwyllgor Archwilio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.
- 10.8 Mae'r ffi diwrnod a hanner diwrnod ar gyfer Aelodau Cyfetholedig statudol gyda hawliau pleidleisio, fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol, yn cael ei nodi yn **Atodlen 1**.

## 11.0 Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth - Egwyddorion Cyffredinol

- 11.1 Gall Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig hawlio costau teithio wrth deithio ar fusnes yr Awdurdod ar gyfer dyletswyddau cymeradwy fel y nodir yn **Atodlen 2**
- 11.2 Anogir Aelodau sy'n teithio ar fusnes Cyngor i ddefnyddio trenau Dosbarth Safonol neu wasanaeth cyhoeddus eraill pryd bynnag y bydd hynny'n bosib. Onid yw gwarant reilffordd yn cael ei defnyddio gall Aelodau hawlio'r costau teithio yn ôl ar ffurflen hawlio fisol a thrwy amgáu'r ticed neu'r dderbynneb berthnasol.
- 11.3 Disgwylir i Aelodau sy'n mynychu cyfarfodydd y tu allan i'r Sir rannu cludiant, onid yw'r Prif Weithredwr wedi cytuno fel arall. Bydd lwfans milltired car yn daladwy'n fisol yn ôl y gyfradd yn **Atodlen 3** a thelir y lwfans mewn dyled bob mis ar ôl derbyn ffurflen hawlio o fath a fydd yn cael ei gymeradwyo gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).
- 11.4 Lle mae Aelod yn teithio i gyfarfod o rywle heblaw ei gartref, bydd lwfansau teithio yn daladwy o ffiniau'r Sir.
- 11.5 Onid yw'r Aelod perthnasol wedi ardystio i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) ei fod yn defnyddio ei gartref fel canolfan i wneud ei waith fel Cynghorydd, bydd unrhyw lwfansau milltired a delir i'r Aelod yn cael ei drin fel lwfans trehadwy.
- 11.6 Lle bo aelodau'n teithio ar fusnes yr Awdurdod y disgwylir iddynt ei deithio gan ddefnyddio'r dull mwyaf cost-ffeithiol.
- 11.7 Mae cyfraddau Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth Aelodau wedi'u nodi yn **Atodlen 3** ac maent yn destun adolygiad blynyddol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- 11.8 Pan fydd Aelod yn cael ei h/atal yn llwyr neu'n rhannol o'i ch/gyfrifoldebau neu ddyletswyddau fel Aelod o'r Awdurdod yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (Ymddygiad Aelodau), neu reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf, rhaid i unrhyw lwfansau teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy iddo / iddi mewn perthynas â'r cyfnod y mae ef neu hi yn cael ei h/atal cael ei ddal yn ôl gan yr Awdurdod.

## 12.0 Teithio mewn Cerbyd Personol

- 12.1 Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi penderfynu y dylai'r cyfraddau teithio uchaf sy'n daladwy fydd y cyfraddau a nodir gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi ar gyfer y defnydd o geir preifat, beiciau modur a beiciau pedal yn ogystal ag unrhyw atodiad teithwyr.
- 12.2 Mae'r cyfraddau milltired ar gyfer cerbydau preifat fel y pennir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol wedi'u nodi yn **Atodlen 3**.
- 12.3 Pan fydd Aelod yn defnyddio ei g/cherbyd preifat ar gyfer dibenion dyletswydd gymeradwy, rhaid i'r cerbyd gael ei yswirio at ddefnydd busnes. Rhaid darparu prawf o yswiriant priodol i'r Awdurdod ar gais.

### **13.0 Teithio ar Gludiant Cyhoeddus**

#### **Costau Tacsï**

13.1 Bydd ad-daliad am gostau tacsï ar sail derbynneb yn unig.

### **14.0 Llety Dros Nos**

14.1 Bydd llety dros nos yn cael ei archebu gan y Gwasanaethau Democrataidd. Lle bynnag y bo modd, bydd y llety dros nos yn cael ei rhagdalau neu ei anfonebu.

### **15.0 Lwfans Cynhaliaeth**

15.1 Bydd cost cynhaliaeth yr Aelod dros y cyfnod pan fydd oddi cartref ar fusnes y Cyngor yn daladwy'n fisol yn ôl y gyfradd yn yr Atodlen a thelir y lwfans mewn dyled bob mis ar ôl derbyn ffurflen hawlio a fydd yn cael ei chymeradwyo gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau).

15.2 Mae'r gyfradd cynhaliaeth ddiwrnod i gwrdd â chostau prydau bwyd a lluniaeth mewn cysylltiad â dyletswyddau cymeradwy (gan gynnwys brecwast pan na ddarperir fel rhan o lety dros nos) yn cael ei nodi yn **Atodlen 3**. Mae'r gyfradd ddyddiol uchaf yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer unrhyw bryd sy'n berthnasol, gan ddarparu fod cais o'r fath yn cael ei gefnogi gan dderbynebau)

15.3 Nid oes darpariaeth ar gyfer hawliadau cynhaliaeth o fewn y Sir.

### **16.0 Hawliadau a Thaliadau**

16.1 Pan fo lwfansau yn cael eu talu trwy drefn hawlio yna anogir Aelodau i gyflwyno ceisiadau am fisoedd calendr cyfan i'r Gwasanaethau Democrataidd erbyn y 7fed o'r mis dilynol. Dan y Rheolau Gweithdrefn Ariannol gall y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) wrthod talu hawliadau sydd rago na thri mis yn hwyr.

### **17.0 Pensiynau**

17.1 Bydd yr Awdurdod yn galluogi ei aelodau sy'n gymwys i ymuno â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

### **18.0 Cydymffurfiaeth**

18.1 Yn unol â'r Rheoliadau, rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â gofynion y Panel mewn perthynas â'r monitro a chyhoeddi taliadau a wnaed i aelodau ac aelodau cyfetholedig fel y nodir yn **Atodlen 4**.

**Atgoffir yr Aelodau bod ceisiadau treuliau yn destun archwilio mewnol ac allanol.**



**ATODLEN 1****Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau 2018-19**

| <b>AELODAU SYDD Â'R HAWL I GYFLOG SYLFAENOL</b> |                     | <b>SWM<br/>BLYNYDDOL Y<br/>CYFLOG<br/>SYLFAENOL</b> |
|---|---------------------|---|
| 1.  | Lewis Davies        | £13,600   |
| 2.  | John Griffith       | £13,600   |
| 3.  | Richard Griffiths   | £13,600   |
| 4.  | Glyn Haynes         | £13,600   |
| 5.  | Kenneth P Hughes    | £13,600   |
| 6.  | Trefor Lloyd Hughes | £13,600   |
| 7.  | Vaughan Hughes      | £13,600   |
| 8.  | Eric Wyn Jones      | £13,600   |
| 9.  | Richard Owain Jones | £13,600   |
| 10.   | Robert Ll Jones     | £13,600   |
| 11.   | Shaun James Redmond | £13,600   |
| 12.   | Alun Roberts        | £13,600   |
| 13.   | Dafydd Roberts      | £13,600   |
| 14.   | J Arwel Roberts     | £13,600   |

| <b>HAWL I UWCH GYFLOGAU<br/>(yn cynnwys cyflog sylfaenol)</b> |  |                    | <b>SWM<br/>BLYNYDDOL<br/>Y CYFLOG<br/>SYLFAENOL</b> |
|---|--|--------------------|---|
|   | <b>RÔL</b>   | <b>AELOD</b>       |   |
| 1.  | Arweinydd a Phortffolio Gwasanaethau Cymdeithasol                                    | Llinos Medi        | £43,300   |
| 2.  | Dirprwy Arweinydd, Trawsnewid Gwasanaethau a Chyfrifoldeb am yr Iaith                | Ieuan Williams     | £30,300   |
| 3.  | Aelod o'r Pwyllgor Gwaith – Portffolio Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd                | Richard Dew        | £26,300   |
| 4.  | Aelod o'r Pwyllgor Gwaith – Portffolio Cyllid  | Robin Wyn Williams | £26,300   |
| 5.  | Aelod o'r Pwyllgor Gwaith – Portffolio Addysg, Ieuenctid, Llyfrgelloedd a Diwylliant | R Meirion Jones    | £26,300   |
| 6.  | Aelod o'r Pwyllgor Gwaith – Portffolio Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff                  | Robert G Parry OBE | £26,300   |
| 7.  | Aelod o'r Pwyllgor Gwaith – Portffolio Corfforaethol                                 | Dafydd Rhys Thomas | £26,300   |
| 8.  | Aelod o'r Pwyllgor Gwaith – Tai a Chefnogi Cymunedau                                 | Alun Wyn Mummery   | £26,300   |
| 9.  | Aelod o'r Pwyllgor Gwaith – Datblygiadau Mawr a Datblygu'r Economi                   | Carwyn Jones       | £26,300   |
| 10.   | Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio                               | Gwilym O Jones     | £22,300   |
| 11.   | Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol   | Aled Morris Jones  | £22,300   |
| 12.   | Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion   | Nicola Roberts     | £22,300   |
| 13.   | Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu  | Peter Rogers       | £22,300   |
| 14.   | Arweinydd Grwp yr Wrthblaid Fwyaf  | Bryan Owen         | £22,300   |

| <b>HAWL I GYFLOGAU DINESIG</b> |  |                         | <b>SWM<br/>BLYNYDDOL<br/>CYFLOGAU<br/>DINESIG</b> |
|--------------------------------|--|-------------------------|---|
|                                | <b>RÔL</b>                                       | <b>AELOD</b>            |   |
| 15.                            | Pennaeth Dinesig (Cadeirydd y Cyngor)            | Dylan Rees              | £19,300   |
| 16.                            | Dirprwy Bennaeth Dinesig (Is-Gadeirydd y Cyngor) | Margaret Murley Roberts | £14,300   |

Gall uchafswm o 16 o uwch gyflogau (sy'n cynnwys cyflogau dinesig) gael ei dalu yng Nghyngor Sir Ynys Môn ac nid yw hyn wedi cael ei dorri.

| HAWL FEL AELODAU CYFETHLEDIG STATUDOL   |  | HAWL FEL AELODAU CYFETHLEDIG STATUDOL            |
|---|--|--|
| RÔL   | AELOD  |  |
| Cadeirydd Pwyllgor Safonau  | Michael Wilson   | £256<br>(4 awr a mwy)<br>£128<br>(llai na 4 awr) |
| Cadeirydd Pwyllgor Archwilio  | -  | £256<br>(4 awr a mwy)<br>£128<br>(llai na 4 awr) |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol – Pwyllgorau Safonau, Craffu Addysg, Archwilio, Craffu Trosedd ac Anrhefn                                     | <p><b>Safonau:</b><br/>Denise Harris Edwards<br/>Islwyn Jones<br/>John Robert Jones<br/>Dilys Shaw</p> <p><b>Cynrychiolwyr Cynghorau Tref a Chymuned:</b><br/>Iorwerth Roberts<br/>Keith Roberts</p> <p><b>Sgriwtini:</b><br/>Keith Roberts<br/>Anest Gray Frazer<br/>Dyfed Wyn Jones (o 3 Rhagfyr 2018)</p> <p><b>Archwilio a Llywodraethu:</b><br/>Dilwyn Evans<br/>Jonathan Mendoza</p> | £198<br>(4 awr a mwy)<br>£99<br>(llai na 4 awr)  |
| Aelodau Cyfetholedig Statudol – aelodau arferol o'r Pwyllgor Safonau sy hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Safonau mewn Cynghorau Tref a Chymuned | -  | £226<br>(4 awr a mwy)<br>£113<br>(llai na 4 awr) |

| AELODAU GYMWYS I DDERBYN AD-DALIAD AM GOSTAU GOFAL |                              |
|--|------------------------------|
| Pob Aelod  | Hyd at uchafswm o £403 y mis |

## ATODLEN 2

### Lwfansau Teithio

Telir lwfansau teithio yng nghyswllt yr achlysuron a ganlyn:

- unrhyw gyfarfod o'r Cyngor neu unrhyw Bwyllgor o'r Cyngor a fo wedi'i alw gan Swyddog priodol
- unrhyw hyfforddiant a fo wedi'i drefnu gan y Cyngor neu ar ei ran a hwnnw wedi'i gymeradwyo gan y Prif Weithredwr
- unrhyw gyfarfod ar fusnes y Cyngor ac y gwahoddwyd yr Aelod iddo gan y Prif Weithredwr neu Bennaeth Gwasanaeth a chaniatâd wedi'i roddi ar y ffurflen briodol
- unrhyw achlysur dinesig y gwahoddwyd yr Aelod iddo gan Gadeirydd y Cyngor neu gan y Prif Weithredwr, neu a gymeradwyir fel arall gan y Prif Weithredwr
- unrhyw gyfarfod o gorff allanol y penodwyd neu yr enwebwyd yr Aelod iddo gan y Cyngor ond gyda'r amod nad yw'r corff allanol ei hun yn talu costau o'r fath neu fel arall yn gwahardd derbyn costau o'r fath.

Ni thelir lwfansau teithio yng nghyswllt

- cyfarfodydd y grwpiau gwleidyddol
- cyfarfodydd cymdeithasol (lle na fydd busnes y Cyngor yn cael ei drafod)
- cyfarfodydd y gall corff allanol ad-dalu'r costau teithio yn eu cylch
- cyfarfodydd y tu mewn i ward yr Aelod
- siwrneiau o'r cartref i Langefni er mwyn mynychu cyfarfodydd o'r Cyngor Sir Llawn.

**Costau Milltiroedd**

|   |  |
|---|--|
| <b>Cerbydau modur o bob maint</b><br><b>Hyd at 10,000 milltir</b><br><b>Dros 10,000 milltir</b> | <b>45 ceiniog y filltir</b><br><b>25 ceiniog y filltir</b> |
| Beiciau modur preifat<br>Beiciau  | 24 ceiniog y filltir<br>20 ceiniog y filltir               |
| Am bob teithiwr sy'n cael ei gludo ar fusnes yr awdurdod  | 05 ceiniog y filltir                                       |

**Lwfans Cynhaliaeth**

Mae'r gyfradd gynhaliaeth diwrnod yw hyd at uchafswm o £28 ac yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio ar gyfer pryd, gan gynnwys brecwast, lle nad yw'n cael ei ddarparu yn y tâl am aros dros nos. Bydd talu am gynhaliaeth yn dibynnu ar y materion a ganlyn:

- setlir hawliadau hyd at yr uchafswm a nodir yn y rhestr i'r cyfnod perthnasol o absenoldeb o'r cartref
- nid oes modd hawlio tâl cynhaliaeth onid oes hawl hefyd i lwfans teithio i'r un digwyddiad, (pa un a ydyw'n cael ei hawlio neu'i dalu ai peidio)
- nid oes modd hawlio lwfans cynhaliaeth i bwrpas unrhyw fusnes ar yr Ynys
- rhaid cefnogi pob hawliad gyda derbynebion am y gwariant a chyfyngir hyn i ad-dalu'r gwariant.

**Llety dros nos**

Uchafswm y lwfansau ar gyfer aros dros nos yw £200 ar gyfer Llundain a £95 ar gyfer mannau eraill. Mae uchafswm o £30 ar gael ar gyfer aros dros nos gyda ffrindiau neu berthnasau tra ar ddyletswydd gymeradwy.

## ATODLEN 4

### Cydymffurfiaeth

- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y Cyngor y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod ac aelod cyfetholedig o ran cyflogau, lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau, gan gynnwys achosion lle dewisodd yr aelod beidio â chael y cyfan neu ran o'r cyflog, neu'r ffi ar gyfer blwyddyn y Cyngor sydd dan sylw. Cyhoeddir y wybodaeth hon ddim hwyrach na 30 Medi yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud ag ef. Er budd tryloywder bydd hyn yn cynnwys cydnabyddiaeth o bob penodiad gwasanaethau cyhoeddus a gynhelir gan aelodau etholedig.
- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y Cyngor datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd a disgrifiadau rôl ar gyfer deiliaid swyddi uwch gyflog, sy'n nodi'n glir y dyletswyddau disgwylidig.
- Bydd yr Awdurdod yn cyhoeddi ar wefan y Cyngor yn flynyddol y Rhestr o Gydabyddiaeth Ariannol Aelodau ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.
- Bydd yr Awdurdod yn anfon copi o'r Rhestr i'r Panel Annibynnol ar Gydabyddiaeth Ariannol ddim hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati.
- Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o bresenoldeb aelodau / aelodau cyfetholedig mewn cyfarfodydd o'r Cyngor, Pwyllgor Gwaith a phwyllgorau a dyletswyddau cymeradwy eraill y mae aelod / aelodau cyfetholedig yn cyflwyno cais am ad-daliad amdanynt.
- Bydd yr Awdurdod yn trefnu i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yr adroddiadau blynyddol a baratoir gan yr aelodau.
